

# Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Mawddwy

A gynhaliwyd yn Neuadd Aberangell ar Nos Fercher y 5ed o Ragfyr

Fe agorwyd y Cyfarfod yn brydlon am 7.30 yr hwyr gan y Cadeirydd yn unol â'r arfer.

Presenoldebau: Y Cadeirydd, y Cynghorydd J. E. Jones ynghyd â'r Cynghorwyr W. B. Harding, J. P. Jones, T. P. Jones, E. H. Pugh, A. Hughes, C. Jones, I Jones, B. Hughes, I. Ll. Foulkes. Y Cynghorydd Sir J. P. Roberts.

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd G. O. Morgans ynghyd â'r Clerc, Mr H. T. Jones.

Cadarnhau'r Cofnodion: Fe gynigiwyd eu derbyn gan y Cynghorydd W. B. Harding ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd I. Ll. Foulkes

Fe aed ymlaen yn uniongyrchol o hynny i drafod y Cynllun Uwchraddio Llwybrau Cyhoeddus bwriedig ym Mawddwy. Cytunwyd y dylid cael barn gyfreithiol gymwys ar unrhyw ymwneud posib gan y Cyngor Cymuned yn y dyfodol.

Materion yn codi: Fe gyfeiriwyd at y gohebiaethau a oedd gerbron.

Fe roddwyd argymhelliad y dylid cyfarwyddo'r Clerc i ohebu'n uniongyrchol â'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn ogystal â Cyngor Gwynedd pan y bydd unrhyw gwynion pellach yn ymwneud â'r Asiantaeth. Cefnogwyd hyn.

Nodwyd yn dilyn cyflwyniad gan Un Llais Cymru ei bod yn ofynnol i Gyngor Gwynedd ymweld â'r Maes Chwarae yn Lawnt Y Plas yn fisol er mwyn ei archwilio, ac fe godwyd y cwestiwn a wneir hynny mewn gwirionedd.

Dim ymtaeb pellach gan Y Post Brenhinol.

Darllenwyd ymddiheuriad gan un o Wardeniaid Eglwys Mallwyd, Ms Sarah Bletcher, na allodd fynychu'r Cyfarfod yn unol â'i bwriad oherwydd gwaeledd.

Coed ger Eglwys Sant Tydecho, Mallwyd  
Cytunodd I. Ll. Foulkes i wneud ymholiadau gyda Cofrestfra  
Tiroedd Ei Mawrhydi i sefydlu a oes unrhyw berson neu  
sefydliad wedi meddiannu / sefydlu perchenogaeth o'r Tir  
hwn.

Materion Cynllunio:

Y Penrhyn, Cwm Cywarch – Cefnogol mewn egwyddor, cyn  
belled ag y gwneir y defnydd mwyaf o'r deunyddiau  
gwreiddiol.

Bryn Derwen, Aberangell – Datganiad o ddiddordeb gan y  
Cadeirydd. Cytunwyd i gefnogi'r Cais yn unfrydol.

Cyllid:

Cytunwyd i gynyddu'r Presaep't ar raddfa o 5%.

Cytunwyd i dalu'r Anfoneb o £174.00.

Gwrthodwyd y Ceisiadau am arian gan ddau gorff  
cenedlaethol.

Cytunwyd i wneud y cyfraniad arferol i goffrau Sioe Dinas  
Mawddwy a'r Cylch fel arwydd o werthfawrogiad i haelioni  
Mr Geraint Evans, Y Gwanas yn ei rodd arferol o Goeden  
Nadolig.

Unrhyw Fater arall:

Y Maes Parcio yn Lawnt Y Plant mewn cyflwr cywilyddus.

Angen gwaith pellach ar Rhiw Landryn.

Twll yn y Ffordd rhwng Y Buckley Pines a'r Celyn Brithion.  
Y Clerc i gysylltu a'r ddau gorff dan sylw.

Cornel Nant yr Ehedydd – Gofynnwyd i wneud ymholiadau  
paham bod Isadeiledd 'BT' yn ymylu ar y Briffordd ac yn  
beri anhwylostod i gerbydau.

Pyllau Dwfr yn parhau ger Dôl Y Bont.

Yr ochr isaf i Riw Ty'n Y Pwll wedi dirywio drachefn unwaith yn rhagor.

Diolchwyd i'r Teulu Hughes, Penantigi Isaf am eu hymdriniaeth o'r llystyfiant ar ochr y Briffordd ar Fwlch yr Oerddrws.

Ysbwriel yn llethu'r ardal yn gyffredinol, ac yn benodol rhwng Bryn Teg a Safle Garej Ifor gynt.

Nodwyd bod un o hen blant yr Ardal, Mrs E. M. Foulkes wedi huno.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd E. H. Pugh wedi iddo fynychu Cyfarfod diwethaf Un Llais Cymru. Ategwyd yr angen i archwilio unrhyw asedau a berthyn i'r Cyngor Cymuned yn fynych gan bod atebolrwydd yn hyn o beth. Nodwyd y dylid cofnodi'r archwiliadau rheolaidd yn ffurfiol.

Cafwyd trafodaeth gydag Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Lewis Siencyn. Eglurodd Mr Siencyn bod cyfnod o gyni economaidd na welwyd ei fath o'r blaen yn wynebu Awdurdodau Lleol ledled Cymru, ac y cyflwynna hyn nifer o heriau a rhywstredigaethau.

Eglurodd y Cynghorydd W. B. Harding y cwynion dilys yn Aberangell ac fe addewodd Mr Siencyn y byddai'n gwneud ymholiadau.

Fe waned yn ur modd gyda'r Coed sydd wedi eu plannu ar y Tir Comin ar Ddôl Y Bont.

Cytunodd y Cyfarwyddwyr o Gwmni Nôd Glas a oedd yn bresennol i addasu'r geiriad a roddwyd ar hysbyseb yr Ymgynghoriad ar y Cynunllun Uwchraddio Llwybrau bwriedig.

Nodwyd mai ar Nos Fercher y 23ain o Ionawr, am 7.30 yr  
hwyr yn Neuadd Dinas Mawddwy y byddai'r Cyfarfod nesaf  
yn cael ei gynnal.